# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 16 Tachwedd 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Gosod Gwres Canolog am Ddim i'r rhai sydd yn 'Dlawd o Danwydd'

**C6 Jocelyn Davies:** A yw'r weinyddiaeth yn bwriadu cynnig gosod gwres canolog am ddim i'r bobl hynny y dywedir eu bod yn 'dlawd o danwydd'? (OAQ7784)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ydy. Bydd pawb sydd yn gymwys i dderbyn gwres canolog dan y cynllun effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn ei dderbyn yn rhad ac am ddim.

### Tai o Safon Isel (Canolbarth a De Cymru)

**C7 Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddatrys problem tai o safon isel yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (OAQ7754)

**Edwina Hart:** Mae ein bryd ar wella amodau tai ledled Cymru ac yr ydym wedi codi'r cyfalaf tai ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ein cyllideb ddrafft. Mae'r hyblygrwydd sydd gan awdurdodau lleol ar gyfer defnyddio'r adnoddau hynny yn galluogi cynghorau canolbarth a gorllewin Cymru i roi sylw i'w blaenoriaethau tai lleol.

### Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref

**C8 David Lloyd:** A wnaiff Edwina Hart sicrhau'r Cynulliad Cenedlaethol bod digon o adnoddau ar gael i gwblhau'r cynllun effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn effeithiol? (OAQ7791) [R]

**Edwina Hart:** Gwnaf. Mae fy nghynigion cyllideb presennol yn darparu £37 miliwn o nawdd ar gyfer y cynllun rhwng yn awr a Mawrth 2004.

### Canllawiau i Gynghorwyr ynghylch Cyflwyno Tystiolaeth i Bwyllgorau

**C9 Peter Rogers:** Pa ganllawiau a roddwyd i gynghorwyr ynghylch cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau ar safonau ymddygiad? (OAQ7845)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi canllawiau drafft ar weithrediad pwyllgorau safonau cyn y Nadolig.

### Annog Llywodraeth Leol yng Nghymru i fod yn Fwy Agored ac Atebol

**C10 Richard Edwards:** Sut y mae Edwina Hart yn bwriadu annog llywodraeth leol yng Nghymru i fod yn fwy agored ac atebol? (OAQ7756)

**Edwina Hart:** Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, bydd rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno strwythurau rheolaeth wleidyddol newydd. Bydd y rhain yn arwain at fwy o dryloywder, effeithlonrwydd ac

atebolrwydd yn y broses benderfynu. Bydd gan bwyllgorau arolygu ac archwilio rôl bwysig i sicrhau bod y rheini sydd yn gyfrifol am benderfyniadau yn atebol. Cynhelir cyfarfodydd llunio penderfyniadau yn gyhoeddus dan y drefn bresennol ar gael gweld gwybodaeth.

**Tai o Safon Wael (Allgáu Cymdeithasol)**

**C11Cynog Dafis:** Beth sydd yn cael ei wneud i leihau effeithiau tai o safon wael fel ffactor sydd yn cyfrannu at allgáu cymdeithasol? (OAQ7859)

**Edwina Hart:** Mae fy nghyllideb ddrafft yn cynyddu cyfalaf tai i £5 miliwn, £15 miliwn ac £20 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Bydd yr adnoddau ychwanegol hyn, ynghyd â'n cynigion i adfywio cymunedau drwy Cymunedau yn Gyntaf, yn helpu i wella tai gwael, sydd yn aml yn fater sylfaenol i'r rheini sydd dan anfantais gymdeithasol.

**Cynghorau Cymuned**

**C12 Kirsty Williams:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar rôl cynghorau cymuned yn y dyfodol? (OAQ7794)

**Edwina Hart:** Bydd y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol yn ystyried papur gan gymdeithasau cynghorau cymuned yn Rhagfyr. Byddwn yn edrych ar rôl y cynghorau cymuned yn y dyfodol yng ngoleuni'r drafodaeth honno.

**Rhoi'r gorau i Eithrio Tai Myfyrwyr o Dalu'r Dreth Gyngor**

**C13 David Davies:** A wnaiff Edwina Hart sylw ar y cynigion i roi'r gorau i eithrio tai myfyrwyr o orfod talu'r dreth gyngor? (OAQ7762)

**Edwina Hart:** Nid oes gan y Cynulliad gynlluniau ar hyn o bryd i roi'r gorau i eithrio tai myfyrwyr yn hyn o beth. Ar hyn o bryd, yr ydym yn ymgynghori â phobl yng Nghymru ynghylch newidiadau posibl i system gyllid llywodraeth leol, a byddwn yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwn yn llawn.

**Cynigion Gwerth Gorau Awdurdod Lleol**

**C14 William Graham:** A wnaiff Edwina Hart sylw ar y gwendidau y cafwyd sôn bod cynigion Gwerth Gorau pob un o awdurdodau lleol Cymru yn dioddef ohonynt? (OAQ7849)

**Edwina Hart:** Mae Gwerth Gorau yn newydd ac felly nid oes ryfedd bod yr archwiliad o gynlluniau perfformiad Gwerth Gorau wedi nodi meysydd lle bo angen gwella. Ar yr un pryd, daeth archwilwyr o hyd i sawl enghraifft o safonau uchel o ran cyflwyno gwasanaeth ar y rheng flaen.

Yr oedd y meysydd lle nodwyd bod gwendidau yn nhraean awdurdodau Cymru yn ymwneud â'r trefniadau rheolaeth gorfforaethol ar gyfer cyflwyno Gwerth Gorau a monitro perfformiad. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio'n glòs gydag awdurdodau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Syniad, y Comisiwn Archwilio, y Gwasanaeth Archwilio ac archwilwyr i hwyluso gwella'r meysydd hyn.

**Hyrwyddo Cyfle Cyfartal**

**C15 Richard Edwards:** Sut y mae Edwina Hart yn annog partneriaid mewn llywodraeth leol, busnes a'r sector gwirfoddol i hyrwyddo egwyddorion cyfle cyfartal? (OAQ7753) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adolygu Systemau Etholiadol Llywodraeth Leol**

**C16 Christine Humphreys:** Pa gynlluniau sydd gan Edwina Hart i adolygu'r systemau etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol? (OAQ7795)

**Edwina Hart:** Nid yw cynnal etholiadau llywodraeth leol yn fater a ddatganolwyd. Yn unol â'r ymrwymiad sydd yn y cytundeb partneriaeth, bydd y Cynulliad yn comisiynu adolygiad annibynnol i archwilio systemau etholiadol amgen ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Fodd bynnag, bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r fframwaith statudol presennol yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol y byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU ei chyflwyno.

**Cyfyngu ar Gynnydd yn y Dreth Gyngor (Cymorth Trosiannol)**

**C17 Janet Ryder:** A wnaiff Edwina Hart esbonio sut y dewiswyd y tri chyngor sydd yn gymwys am y cymorth trosiannol i gyfyngu ar gynnydd yn y dreth gyngor ac a enwyd yn y ddadl ar 31 Hydref? (OAQ7786) [R]

**Edwina Hart:** Nid ydym yn gwybod eto pa awdurdodau a fydd yn derbyn cymorth trosiannol. Yr oedd yr enghreifftiadau a baratowyd cyn y ddadl yn seiliedig ar dybiaethau eang a'r data a oedd ar gael bryd hynny: nododd y rhain y byddai tri chyngor yn gymwys am gymorth trosiannol. Pan gawn yr wybodaeth derfynol gan awdurdodau i'w fwydo i'r setliad, gall y canlyniad fod yn wahanol, a gall yr awdurdodau sydd yn gymwys i dderbyn cymorth newid.

**Etholiadau Lleol**

**C18 Lorraine Barrett:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar y trafodaethau a gafodd gydag awdurdodau lleol i ystyried dulliau pleidleisio amgen, gan gynnwys pleidleisio dros y ffôn a'r rhyngrwyd, fel cyfrwng i wneud pleidleisio'n haws a chynyddu'r nifer sydd yn bwrw'u pleidlais mewn etholiadau lleol yng Nghymru? (OAQ7804)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael trafodaethau gydag awdurdodau lleol ar y mater hwn. Y Swyddfa Gartref sydd yn gyfrifol am gynnal etholiadau.

**'Dull Cabinet' mewn Llywodraeth Leol**

**C19 William Graham:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar y modd y cafodd y 'dull cabinet' ei roi ar waith mewn llywodraeth leol yng Nghymru? (OAQ7848)

**Edwina Hart:** Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru wedi cyflwyno trefniadau gweithredol newydd cyn i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ddod i rym. Mae hyn wedi arwain at gymryd camau sylweddol tuag at wneud penderfyniadau mewn modd mwy tryloyw, effeithlon ac atebol. Yr wyf yn rhagweld y bydd yr awdurdodau hynny sydd eisoes wedi moderneiddio eu strwythurau yn parhau i'w defnyddio oherwydd y rheswm hwnnw.

Yr wyf yn bwriadu ymgynghori'n fuan ar y pedwerydd opsiwn sef cyflwyno strwythur pwyllgorau addasedig gyda gwell mecanweithiau archwilio. Bydd hwn hefyd yn eithaf gwahanol i'r hen strwythur pwyllgorau.

**Grantiau Tai Cymdeithasol**

**C20 Glyn Davies:** Beth yw polisi Edwina Hart mewn perthynas â grantiau tai cymdeithasol ar gyfer datblygiadau y gwrthodwyd caniatâd cynllunio iddynt ac sydd bellach yn destun apêl? (OAQ7807)

**Edwina Hart:** Bydd fy swyddogion yn ymgynghori â Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y mater hwn. Ar ôl gorffen yr ymarfer ymgynghorol hwn, byddaf yn penderfynu pa ddull gweithredu y dylid ei ddilyn.

**Rhoi Cymunedau'n Gyntaf**

**C21 Lynne Neagle:** Sut y bydd Edwina Hart yn sicrhau bod y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn targedu cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru? (OAQ7798)

**Edwina Hart:** Fel y gwyddoch, byddaf yn ymgynghori'n fuan ar fframwaith polisi Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Byddaf yn cynnig y dylid nodi tua 100 o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, drwy ddefnyddio'r mynegai amddifadedd lluosog a gwybodaeth leol a'u cymharu â'r meini prawf a nodir yn y papur ymgynghorol. Byddwn yn gofyn am sylwadau awdurdodau lleol a'u partneriaid ar y cynnig hwn.

**Newid Amseriad Etholiadau Llywodraeth Leol**

**C22 David Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Edwina Hart i newid amseriad etholiadau llywodraeth leol? (OAQ7761)

**Edwina Hart:** Mae Adran 86(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r grym i'r Cynulliad lunio Gorchymyn sydd yn nodi'r blynyddoedd pryd y gellir cynnal etholiadau arferol awdurdod lleol. Yn fuan, byddaf yn cynnal ymarfer ymgynghori ynghylch a ddylai'r Cynulliad ddefnyddio'r grym hwn.

**Rhoi Cymunedau'n Gyntaf (Cyfiawnder yr Ifanc a Chamddefnyddio Sylweddau)**

**C23 Peter Black:** Sut y mae Edwina Hart yn bwriadu sicrhau bod gweithredu ar gyfiawnder yr ifanc a chamddefnyddio sylweddau yn cael eu cynnwys yn agenda Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ7808)

**Edwina Hart:** Mae bryd y Cynulliad ar adeiladu cymunedau sydd yn fwy diogel ledled Cymru; lleihau troseddu fydd un o elfennau hanfodol Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Bydd swyddogaethau allweddol ar gyfer yr heddlu a'u partneriaid lleihau trosedd ac anrhefn, ynghyd â thimau alcohol a chyffuriau sydd yn cynrychioli asiantaethau lleol allweddol. Bydd cymunedau, gan weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol allweddol, yn penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

**Cydlynu'r Ystod o Brosiectau Adfywio Cymdeithasol**

**C24 Janet Davies:** A oes gan y weinyddiaeth gynlluniau i gydlynu'r ystod o brosiectau adfywio cymunedol sydd yn cael eu cynnig yn awr? (OAQ7787) [R]

**Edwina Hart:** Yn fuan, cyhoeddir yr ail ddogfen ymgynghorol ar Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Bydd y ddogfen yn gosod y fframwaith polisi a gynigaf ar gyfer Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ac mae'n gofyn am sylwadau ar agweddau allweddol o'n dull gweithredu. Yr ydym yn bwriadu cynnwys prosiectau rhaglen Pobl Mewn Cymunedau a'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Ni ragwelaf y bydd Cymunedau yn Gyntaf yn disodli prosiectau adfywio cymunedol sydd eisoes ar waith, ond yn eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer adeiladu'r cysyniad newydd sef Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yr wyf hefyd yn edrych ar ffyrdd eraill y gallwn eu defnyddio i resymoli rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Rhoi Cymunedau'n Gyntaf (Newyddion Diweddaraf)**

**C25 Brian Gibbons:** A wnaiff Edwina Hart ddweud beth yw'r diweddaraf am Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ7759)

**Edwina Hart:** Trafodwyd dogfen ymgynghorol Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ym Mhwyllgor Rhanbarth y De-orllewin yng Ngwaun-Cae-Gurwen, Castell-nedd ar 27 Hydref. Yr oeddwn yn falch iawn eich bod yn bresennol ar gyfer y drafodaeth honno. Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi'r ail bapur ymgynghorol, sydd yn gosod y fframwaith polisi arfaethedig, ymhen yr ychydig wythnosau nesaf. Mae'r cynigion hyn yn deillio o'r ymatebion a gafwyd i'r papur ymgynghorol cyntaf.

### Cynlluniau i Ddatblygu Cynghorau Cymuned yng Nghymru

**C26 Christine Humphreys:** Pa gynlluniau sydd gan Edwina Hart i ddatblygu cynghorau cymuned yng Nghymru? (OAQ7796)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn bwriadu gwrando ar sylwadau cynghorau cymuned a'r rheini sydd yn gweithio gyda hwy cyn cyhoeddi cynlluniau.

### Effaith Economaidd Galw Ceisiadau Cynllunio i mewn ar Fusnesau Lleol

**C27 Peter Rogers:** Wrth benderfynu galw ceisiadau cynllunio i mewn, a oes asesiad yn cael ei wneud o effaith economaidd hynny ar fusnesau lleol? (OAQ7857) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd.***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Mae gan y Cynulliad rywfaint o ddisgresiwn ynghylch pa geisiadau cynllunio dylid eu galw i mewn i'r Cynulliad benderfynu arnynt, ond y brif ystyriaeth yw a oes i'r datblygiad arfaethedig bwysigrwydd y tu hwnt i'r lefel leol. Ni fyddai rhinweddau cynllunio manwl cais yn cael eu hystyried yng ngwerthusiad y Cynulliad ynghylch a ddylid ei alw i mewn. Gellir dod o hyd i ateb llawnach ynghylch pa geisiadau a elwir i mewn yn ateb Peter Law i Glyn Davies ar 5 Hydref 1999 (WAQ1415).

Byddai'n bosibl i ddatblygiad arfaethedig y bernir bod iddo bwysigrwydd y tu hwnt i'r lefel leol gael effaith ar fusnesau lleol, ond byddai asesiad manwl o'r effaith hon yn cael ei hystyried yn ystod y broses benderfynu.

### Hybu Cyfranogi Tenantiaid

**C28 Lynne Neagle:** Sut y bydd Edwina Hart yn hybu trefniadau cyfranogi i denantiaid yng Nghymru? (OAQ7799)

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol a landlordiaid cofrestredig cymdeithasol ynghylch cyflwyno cyfamodau cyfranogiad tenantiaid ledled Cymru. Dylai'r cyfamodau hyn sicrhau y gall tenantiaid gyfrannu at reoli eu cartrefi a bod eu sylwadau'n cael eu hadlewyrchu yn y ffordd y cyflwynir gwasanaethau. Yr ydym yn monitro'r broses o'u rhoi ar waith. Caiff cyfranogiad tenantiaid ei hyrwyddo ymhellach drwy ledaenu ymarfer da a chyllido gwaith y Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru. Mae grantiau hefyd ar gael i gefnogi arfer arloesol gan denantiaid a landlordiaid.

### Cyflwyno Cynrychiolaeth Gyfrannol ar gyfer Llywodraeth Leol

**C29 Mick Bates:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i gyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer llywodraeth leol ers arwyddo'r cytundeb partneriaeth? (OAQ7801)

**Edwina Hart:** Fel y nodwyd yn y cytundeb partneriaeth, byddwn yn comisiynu adolygiad annibynnol o'r systemau etholiadol posibl ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, ond mae union fanylion adolygiad o'r fath yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Ac ystyried nad yw cynnal etholiadau'n fater a ddatganolwyd, byddai unrhyw newidiadau i'r system etholiadol yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, a fyddai'n cael ei wneud yn San Steffan.

### Trwyddedu Gerddi Swolegol (Lles Anifeiliaid)

**C30 Christine Gwyther:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar sut y mae llywodraeth leol yn gwneud lles anifeiliaid yn ffactor y mae'n rhaid ei hystyried wrth drwyddedu gerddi swolegol? (OAQ7758) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Oriau Gwaith Annerbyniol o Hir Gyrwyr Proffesiynol

**C7 Janice Gregory:** A oes gan Sue Essex unrhyw gynlluniau i ymgynghori ag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ar fater oriau gwaith annerbyniol o hir gyrwyr proffesiynol yng Nghymru? (OAQ7768)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Mae cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar ddarpariaethau manwl amser gweithio ar gyfer y sector trafnidiaeth ffordd yn cael eu trafod gan y Cyngor Trafnidiaeth ar hyn o bryd, ond sefydlwyd gweithgor, dan arweiniad yr Arglwydd Whitty, i ddod o hyd i'r ffordd orau o reoli gweithredu'r gyfarwyddeb amser gweithio yn y DU. Mae gan y grŵp gynrychiolwyr o'r Llywodraeth, mudiadau cyflogwyr ac Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol. Nid oes gennym gyfrifoldeb uniongyrchol dros hyn.

### Ymrwymiad y Llywodraeth i Ynni Cynaliadwy

**C8 Helen Mary Jones:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ynni cynaliadwy? (OAQ7837)

**Sue Essex:** Un o dargedau allweddol 'Gwellcymru.com' yw datblygu Cymru yn llwyfan byd-eang ar gyfer cynhyrchu ynni glân. Yn y cytundeb partneriaeth, cadarnhawyd ein hymrwymiad i integreiddio datblygiad cynaliadwy amgylcheddol a chymdeithasol yn llawn drwy holl bolisïau'r Llywodraeth.

Mae astudiaeth a gomisiynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i adnoddau ynni adnewyddadwy posibl bron â dod i'w therfyn a bydd y Cynulliad yn defnyddio'i chanlyniadau i ddatblygu fframwaith ynni strategol i Gymru. Mae astudiaeth i'r posibiliadau masnachol i ffermwyr sydd yn arallgyfeirio i sectorau amgen, gan gynnwys cnydau ynni fel biomas, wedi cael ei gomisiynu gan Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol ac mae argymhellion yr astudiaeth honno hefyd yn cael eu hystyried. Mae'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn gyfrifol am faterion ynni ac mae'n fodlon gyda'r ateb hwn.

### Llifogydd a'u Heffeithiau

**C9 Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan Sue Essex i wneud pobl Cymru'n fwy ymwybodol o lifogydd a'u heffeithiau? (OAQ7775)

**Sue Essex:** Rhoddaf gryn bwys ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yng Nghymru o wir berygl llifogydd. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn annog ac yn darparu cymorth ariannol i nifer o gamau a gymerir i'r perwyl hwn.

### Lleihau'r Nwyon Tŷ Gwydr sydd yn cael eu Rhyddhau

**C10 Phil Williams:** Pa bolisïau sydd yn eu lle i leihau'r nwyon tŷ gwydr sydd yn cael eu rhyddhau yng Nghymru? (OAQ7834)

**Sue Essex:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn OAQ7830 yn gynharach heddiw.

### Canllawiau Cynllunio ar gyfer Gorlifdiroedd

**C11 Lorraine Barrett:** A oes gan Sue Essex unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r canllawiau cynllunio ar gyfer gorlifdiroedd? (OAQ7772)

**Sue Essex:** Mae polisi cynllunio yng Nghymru'n cael ei adolygu, ac mae canllawiau gyda golwg ar ddatblygu a'r perygl o lifogydd yn ganolog i'r broses hon. Disgwyliaf gyhoeddi'r adolygiad ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ddiwedd Ionawr 2001.

**Y Cynllun Arfaethedig i Ailagor Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr**

**C12 Peter Law:** A wnaiff Sue Essex roi ei chefnogaeth lawn i'r cynllun arfaethedig i ailagor gwasanaethau rheilffordd i deithwyr rhwng Glyn Ebwy/Abertyleri a Chaerdydd/Casnewydd? (OAQ7766)

**Sue Essex:** Yr wyf yn awyddus i gefnogi ailgyflwyno gwasanaeth i deithwyr ar hyd llwybrau cludo nwyddau, pan fo hynny'n ymarferol, ond rhaid cyfiawnhau'r gost ym mhob achos. Yr wyf yn disgwyl am ganlyniadau'r astudiaeth ymarferoldeb a gynhelir gan Ymgynghorwyr Gwent. Yn y cyfamser, yr ydym wedi tanlinellu diddordeb y Cynulliad yn y cyswllt rheilffordd hwn yn y pecyn ymgeiswyr a gyhoeddwyd i'r wyth cwmni cymwys sydd yn paratoi ceisiadau ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau.

**Grantiau Trafnidiaeth i Wella Ffyrdd**

**C13 Peter Black:** Faint o arian sydd ar gael ar gyfer grantiau trafnidiaeth i wella ffyrdd yn ystod y tair blynedd nesaf? (OAQ7814) [R]

**Sue Essex:** Mae'r Cynulliad i drafod y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 19 Hydref. Mae hon yn cynnig bod y grant trafnidiaeth sydd ar gael yn £45.343 miliwn, £56.343 miliwn a £66.343 miliwn ar gyfer 2001-02, 2002-03 a 2003-04, yn y drefn honno. Defnyddir grant trafnidiaeth i gyllido pecynnau o fesurau trafnidiaeth integredig, sydd yn costio dros £1 miliwn, prosiectau Llwybrau Diogel i'r Ysgol, yn ogystal â chynlluniau ffyrdd mawr, sydd yn costio dros £5 miliwn, na all adnoddau heb eu hadneuo awdurdodau lleol dalu amdanynt. Nid wyf wedi gwneud penderfyniad ar y balans terfynol rhwng yr elfennau ar gyfer 2001-02. Fodd bynnag, mae rhai ymrwymiadau yn parhau mewn perthynas â chynlluniau ffordd y cytunwyd arnynt yn flaenorol a chawsant eu gwneud fel blaen ddyraniadau o £13.732 miliwn a £8.566 ar gyfer 2003-04, yn y drefn honno. Yr wyf hefyd wedi penderfynu dyrannu o leiaf £2 miliwn tuag at brosiectau Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn 2001-02. Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi fy mhenderfyniad ar ddyraniadau ar gyfer 2001-02 ddechrau Ionawr 2001.

**Nifer y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**

**C14 Christine Gwyther:** A all Sue Essex wneud datganiad ynghylch nifer y safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig sydd yng Nghymru? (OAQ7776) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyflawni'r Targedau Rhyngwladol Cyffredinol**

**C15 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad ynghylch i ba raddau y mae ein cynllun datblygu cynaliadwy yn cyflawni'r targedau rhyngwladol cyffredinol? (OAQ7852)

**Sue Essex:** Dan ddarpariaethau'r cynllun datblygu cynaliadwy sydd gerbron y Cynulliad heddiw, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymrwymo i helpu i gyflawni targedau rhyngwladol a thargedau'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â chynaliadwyedd. Mae amrywiaeth o fesurau ar y gweill i gyflwyno'r ymrwymiad hwn, gan gynnwys gweithredu ar reoli gwastraff, ansawdd dŵr ac aer a chynefinoedd.

**Annog Mwy o Bobl i Deithio ar Fysiau yng Nghymru**

**C16 Richard Edwards:** Sut y bydd Sue Essex yn annog mwy o bobl i deithio ar fysiau yng Nghymru? (OAQ7774) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Lefel y Llygredd ym Mae Caerdydd

**C17 Brian Hancock:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad ar lefel y llygredd ym Mae Caerdydd? (OAQ7833)

**Sue Essex:** Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dweud wrthyf yr ystyrir bod ansawdd y dŵr yn y bae yn dderbyniol ar hyn o bryd.

Mae Awdurdod Harbwr Caerdydd ar ganol trefnu mesurau tymor hir i gynnal y safon ansawdd dŵr ocsigen toddedig a bennwyd yn Neddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 drwy ddefnyddio system awyru sydd wedi'i gosod ar y gwely: disgwylir dechrau gosod y system hon yn y flwyddyn newydd.

Yn ystod y cyfnod hwn o argáu dŵr halen, defnyddiwyd trefn llifolchi dŵr i gynnal ansawdd dŵr y bae. Mae hyn wedi golygu gwagio'r bae yn ystod y trai a'i ail lenwi yn ystod y llanw uchel nesaf ar gyfnodau a bennwyd ymlaen llaw ers yr argáu. Yn sgîl llif trwm yr afonydd i'r bae yn ddiweddar, dŵr croyw yw'r rhan fwyaf ohono erbyn hyn. Mae hyn wedi gwella lefelau'r ocsigen toddedig yn y bae gan arwain at lai o lifolchi dros yr wythnosau diwethaf.

Wrth i'r gwaith carthu fynd rhagddo, rhagwelir y bydd angen llifolchi'r bae yn rheolaidd eto i gynnal y safonau ansawdd dŵr priodol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn sicrhau bod ansawdd y dŵr yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac mae wedi cytuno gydag awdurdod yr harbwr ar brotocol ar gyfer monitro ychwanegol yn ystod y gwaith carthu a fydd yn parhau hyd at wanwyn 2001. Fel rhan o'i raglen ansawdd amgylcheddol, mae Dŵr Cymru yn gwella nifer o arllwysfeydd i fyny'r afonydd o'r bae a dylai hynny wella ansawdd y dŵr.

## Rheilffordd Arfordirol Gogledd Cymru

**C18 Gareth Jones:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad am y camau a gymerwyd o safbwynt rheilffordd arfordirol gogledd Cymru? (OAQ7827)

**Sue Essex:** Mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau diweddar gyda Railtrack ynghylch yr oedi cyn gweithredu'r gwelliannau lein cyflym ar hyd prif reilffordd arfordirol gogledd Cymru. Er bod yr holl waith isadeiledd yn ei le, mae namau yn y dyluniad wedi arwain at oedi cyn y gall Railtrack ganiatáu i yrwyr deithio ar y cyflymderau eithaf ar gyfer y llwybr.

Ar 11 Hydref, ysgrifennodd fy swyddogion at gyfarwyddwr parth y gogledd orllewin yn datgan ein pryder, a gofynnodd am adolygiad brys o'r gwaith gosod presennol, ac mae'n gobeithio y bydd yn gallu cynnig 90 milltir yr awr am tua 12 milltir o'r llwybr, ac 85 milltir yr awr ar gyfer gweddill y llwybr.

## Paratoi Strategaeth Wastraff

**C19 Janet Ryder:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad byr am unrhyw ddatblygiadau wrth baratoi strategaeth wastraff? (OAQ7841)

**Sue Essex:** Bydd y Cynulliad yn cyhoeddi strategaeth wastraff ddrafft yn y gwanwyn fel y gellir ymgynghori arni a bydd yn cyflwyno dogfen derfynol yn hydref 2001. Caiff y strategaeth ei datblygu mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid allweddol ac yr wyf yn sefydlu fforwm gwastraff fel y gallwn ddatblygu'r materion strategol y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae papur a ystyriwyd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ddoe yn rhoi manylion y materion.

## Gwella Darpariaeth Cludiant Cyhoeddus ym Mae Caerdydd

**C20 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd yn cael eu hystyried i wella darpariaeth cludiant cyhoeddus yn ardal Bae Caerdydd? (OAQ7819)

**Sue Essex:** Mae Cyngor Caerdydd wedi cyflwyno ei gynllun trafnidiaeth leol sydd yn cynnwys gwella trafnidiaeth gyhoeddus ardal y Bae. Yn 2000-01 dyrannwyd bron i £6 miliwn i Gaerdydd o dan y grant trafnidiaeth, a bydd dyraniadau'r dyfodol yn rhoi ystyriaeth i'r cynllun. Rhoddwyd grant cymhorthdal bysiau gwerth £274,000 i Gaerdydd yn 2000-01, a bydd cam II o'r datblygiad cyfredol i Sgwâr Bute yn cynnwys llwybrau sydd yn rhoi blaenoriaeth i fysiau. Mae'r Cynulliad wedi dyfarnu comisiwn er mwyn cael astudiaeth ddichonoldeb o'r opsiynau ar gyfer cyfnewid y cysylltiad rheilffordd presennol yn Rhodfa Bute gyda system rheilffordd gul diesel. Mae'r Cynulliad wedi trafod y posibilrwydd o ddatblygu cynlluniau teithio gwyrdd yn ardal y Bae, mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol.

**Atal Llifogydd yng Nghymru**

**C21 William Graham:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad ynghylch mesurau atal llifogydd yng Nghymru? (OAQ7853)

**Sue Essex:** Nod y Cynulliad Cenedlaethol yw lleihau'r perygl o lifogydd i bobl ac i amgylchedd datblygedig a naturiol Cymru drwy: annog darparu systemau rhybuddio am lifogydd digonol a chost-effeithiol; annog darparu mesurau amddiffyn rhag llifogydd sydd yn ddigonol ac yn dechnegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd ddiogel ac yn gynaliadwy a pheidio â chefnogi datblygiadau anaddas mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

Cyhoeddais i Aelodau ar 31 Hydref y byddwn yn adolygu trefniadau amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru.

**Prosesu Grantiau Trafnidiaeth yn 2001-02**

**C22 Peter Black:** Pa amserlen y mae Sue Essex yn ei rhagweld er mwyn prosesu'r grantiau trafnidiaeth yn 2001-02? (OAQ7815) [R]

**Sue Essex:** Derbyniwyd ceisiadau am grantiau trafnidiaeth gan bob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 31 Awst. Mae'r ceisiadau'n cael eu hasesu yn awr a byddaf yn cyhoeddi dyraniadau yn fuan yn Ionawr 2001.

**Ceisiadau Cynllunio i Godi Mastiau Ffonau Symudol**

**C23 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad ar geisiadau cynllunio i godi mastiau ffonau symudol? (OAQ7842)

**Sue Essex:** Mewn ymateb i un o argymhellion allweddol adroddiad y grŵp arbenigol annibynnol ar ffonau symudol—adroddiad Stewart—derbyniais y dylai pob mast telathrebu ddibynnu ar gais am ganiatâd cynllunio. Cyhoeddwyd papur ymgynghorol ar ein newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth gynllunio, ynghyd â chanllawiau/cyngor drafft perthnasol, i ystod eang o grwpiau sydd â diddordeb yn y maes ar 8 Tachwedd 2000. Gwahoddwyd sylwadau erbyn 5 Ionawr 2001.

**Sicrhau bod Tanwydd yn Cael ei Gyflenwi yng Nghymru**

**C24 Ieuan Wyn Jones:** A oes cynlluniau wrth gefn i sicrhau bod tanwydd yn cael ei gyflenwi yng Nghymru? (OAQ7829)

**Sue Essex:** Mae'r memorandwm dealltwriaeth a lofnodwyd gyda'r cwmnïau olew yn eu hymrwymo i weithio gyda'r Cynulliad a'r heddlu i sicrhau bod cyflenwadau olew i Gymru yn ddiogel. Mae systemau yn eu lle i sicrhau bod cludo tanwydd i ddefnyddwyr, yn enwedig defnyddwyr â blaenoriaeth, yn parhau cyn hired ag y bo modd. Sefydlwyd gweithgor argyfyngau ar ôl yr argyfwng ym Medi, ac mae wedi cydlynu gwaith y Cynulliad, awdurdodau lleol, NHS Cymru a'r gwasanaethau brys i gyflwyno ymateb ar y cyd yng Nghymru ar gyfer unrhyw argyfwng tanwydd. Mae'r grŵp wedi llwyddo i gael gafael, ar gyfer

Cymru, ar dros 10 y cant o'r holl orsafoedd penodedig ym Mhrydain lle byddai dosbarthu tanwydd at ddibenion blaenoriaeth yn orfodol dan statud yn ystod argyfwng tanwydd.

### Cludo Nwyddau ar y Rheilffyrdd

**C25 David Davies:** Beth y mae Sue Essex yn ei wneud i annog mwy o ddefnydd o'r rheilffyrdd wrth gludo nwyddau fel rhan o'r cynllun trafnidiaeth integredig? (OAQ7778)

**Sue Essex:** Mae'r Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd annog y symudiad moddol o gludo nwyddau ar ffyrdd i'w cludo ar reilffyrdd, ac mae'n rhoi pwysau ar Railtrack drwy ei ddatganiad rheoli rhwydwaith, i gynyddu lled llwybrau rheilffyrdd cludo nwyddau allweddol Cymru. Mae grant ar gael gan y Cynulliad drwy gyfrwng y cynllun grant cyfleusterau cludo nwyddau, sydd yn darparu cymorth ariannol tuag at gost cyfalaf darparu cyfleusterau ar gyfer trin nwyddau a gludir lle gallai hyn helpu trafnidiaeth rheilffyrdd gystadlu'n economaidd gyda'r ffyrdd. Cynigir grant i gydnabod y buddiannau amgylcheddol sydd yn deillio o symud traffig lorïau trwm oddi ar y ffyrdd. Mae grant mynediad trac, grant refeniw a gyfrifir yn yr un ffordd â'r grant cyfleusterau cludo nwyddau, hefyd ar gael a chaiff ei weinyddu gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yng Nghymru a Lloegr.

Mae fy swyddogion yn trafod dyfodol grantiau cludo nwyddau yn gyffredinol gyda'r awdurdod rheilffyrdd strategol cysgodol, ac mae'r Cynulliad hefyd yn cyfrannu at ddatblygu strategaeth gyffredinol cludo nwyddau yn y DU yr awdurdod rheilffyrdd strategol cysgodol.

### Lleihau Oedi ar y Rhwydwaith Trafnidiaeth

**C26 Geraint Davies:** Pa fesurau sydd ar y gweill er mwyn lleihau oedi ar y rhwydwaith trafnidiaeth o ganlyniad i dywydd garw? (OAQ7831)

**Sue Essex:** Y Cynulliad Cenedlaethol sydd yn gyfrifol am y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru. Nod y Cynulliad yw darparu gwasanaeth cynnal a chadw a fydd, cyn belled ag y bo modd, yn galluogi traffig i symud yn ddiogel ar draffyrdd a chefnffyrdd drwy Gymru a bod cyn lleied â phosibl o oedi a damweiniau yn cael eu hachosi gan y gaeaf ac amodau tywydd anodd eraill. Awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am eu ffyrdd lleol fel awdurdodau priffyrdd lleol. Nid oes gan y Cynulliad locws ffurfiol mewn perthynas â'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Yr ydym, fodd bynnag, yn cael gwybod y diweddaraf am gynlluniau wrth gefn y cwmnïau trenau.

### Trafodaethau gyda Railtrack

**C27 Dafydd Wigley:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad am unrhyw drafodaethau a gafodd gyda Railtrack ynghylch cyflwr traciau yng Nghymru? (OAQ7779)

### Gwella Cyflwr Traciau yng Nghymru

**C28 Dafydd Wigley:** Pa drafodaethau a gafodd Sue Essex gyda Railtrack ynghylch yr angen i wella cyflwr traciau yng Nghymru? (OAQ7780)

**Sue Essex:** Yr oeddwn mewn cyfarfod gyda'r Dirprwy Brif Weinidog, y Gweinidog dros Drafnidiaeth a phrif weithredwr Railtrack, Gerald Corbett, yn Llundain ar 2 Tachwedd, i adolygu datblygiadau'r rhaglen adfer traciau cenedlaethol.

Gwn bod Railtrack wedi nodi namau ar drac y lein i'r dref, o gyfeiriad Abertawe i Lundain, yng Ngwyn y Gaer, ger Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cyfyngiad cyflymder dros dro o 20 milltir yr awr yno ac mae Railtrack yn bwriadu atgyweirio'r lein cyn gynted ag y bo modd.

## Cost Gwella Trafnidiaeth Rhwng y De a'r Gogledd

**C29 Alison Halford:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad am gost gwella trafnidiaeth rhwng y de a'r gogledd a nodir yn yr 'Astudiaeth o Gysylltiadau Trafnidiaeth rhwng Gogledd a De Cymru', Mai 2000? (OAQ7770)

**Sue Essex:** Mae fy mryd ar wella cysylltiadau rhwng gogledd a de Cymru. Mae'r adroddiad a baratowyd gan Babtie yn amcangyfrif mai cyfanswm y gost ar gyfer gweithredu'r cynlluniau i wella llwybr y ffordd rhwng y gogledd a'r de fyddai £270 miliwn. Rhaid imi ystyried lefelau y buddsoddiad yng nghyd-destun y nawdd sydd ar gael yn y gyllideb ddrafft.

Rhaid i fy mhenderfyniad hefyd ystyried yr anghenion am isadeiledd trafnidiaeth a buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru. O ran trafnidiaeth gyhoeddus, yr wyf yn disgwyl gwell cysylltiadau rheilffyrdd rhwng gogledd a de Cymru yn rhan o fasnachfraint newydd Cymru a'r Gororau gyda chymhorthdal refeniw gan yr awdurdod rheilffyrdd strategol cysgodol.

## Gwella Diogelwch ar Ffyrdd yng Nghymru

**C30 Richard Edwards:** Pa gynlluniau sydd gan Sue Essex i wella diogelwch ar ffyrdd yng Nghymru? (OAQ7773) ***Tynnwyd yn ôl.***